

CYFARFOD: PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

DYDDIAD: 21 MAI 2026

TEITL: DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS

PWRPAS: Mae Cod Ymarfer CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i'r dangosyddion darbodus gael eu hadrodd bob chwarter

ARGYMHELLIAD: DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH

AWDUR: DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu *Cod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys Gwasanaethau Cyhoeddus* Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo adroddiadau rheolaeth trysorlys yn chwarterol a blynyddol.

Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn darparu'r diweddariad ychwanegol ac yn cynnwys y gofyniad yng Nghod 2021 o adrodd chwarterol ar ddangosyddion darbodus rheolaeth trysorlys.

Cymeradwywyd Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2025/26 yn y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly mae'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddiwyd ac effaith refeniw newid cyfraddau llog. Felly mae adnabod, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

## 2. Cyd-destun Allanol

### 2.1 Cefndir Economaidd

Roedd y chwarter cyntaf wedi ei ddominyddu gan tariffau masnachol yr Unol Daleithiau ac yr effaith negyddol ar y marchnadoedd ecwiti a bondiau. Er bod hyn wedi'i wrthdroi rhywfaint yn yr ail chwarter gyda marchnadoedd ecwiti yn cynhyrchu enillion, gwelodd hefyd wahaniaeth mewn cynnyrch bondiau llywodraeth yr Unol Daleithiau a'r DU. Roedd cynnyrch y DU yn parhau ar lefelau uwch wrth i fuddsoddwyr fynnu enillion uwch ar ffurf term premia oherwydd bod sefyllfa ariannol ac economaidd y DU mwy ansicr.

Roedd rhan olaf y cyfnod yn cynnwys Cyllideb Hydref y llywodraeth ym mis Tachwedd. Er gwaethaf llawer o ddyfalu a cyflwyno polisiau posibl yn araf bach yn yr wythnosau cyn y digwyddiad, ystyrir yr hyn a gyhoeddwyd yn y pen draw yn fwy tawel nag a ddisgwyliwyd, gan helpu i leddfu ofnau buddsoddwyr o fenthyca sylweddol uwch.

Roedd chwyddiant prisiau defnyddwyr y DU (CPI) yn 3.2% ym mis Tachwedd 2025, i lawr o 3.6% yn y mis blaenorol ac yn is na'r 3.5% a ddisgwyliwyd, ond yn dal i fod ymhell yn uwch na tharged Banc Lloegr (BoE). Lleddfodd CPI craidd i 3.2% o 3.4%, yn erbyn rhagolygon ei fod yn aros ar 3.6%.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), ehangodd economi'r DU 0.7% yn chwarter cyntaf y flwyddyn galendr, 0.3% yn Ch2 a 0.1% yn Ch3. O'r ffigurau misol dilynol, amcangyfrifodd yr ONS fod CMC wedi gostwng 0.1% ym mis Hydref.

Parhaodd y farchnad lafur i leddfu dros y cyfnod wrth i ddiweithdra gynyddu, swyddi gwag gostwng ac anweithgarwch aros yn wastad. Yn y tri mis hyd at Hydref 2025, cododd y gyfradd ddiweithdra i 5.1%, yn uwch na'r lefel a ddisgwyliwyd yn flaenorol gan y BoE, tra bod y gyfradd gyflogaeth wedi llithro i 74.9%.

Pleidleisiodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) 5-4 i dorri Cyfradd y Banc i 3.75% ym mis Rhagfyr 2025, fel y disgwyliwyd. Barnodd llunwyr polisi sydd eisiau toriad fod disinflation wedi'i sefydlu tra bod y rhai sy'n well ganddynt gynnal Cyfradd Banc ar 4% yn dadlau bod risgiau chwyddiant yn parhau i fod yn ddigon materol i'w adael heb ei gyffwrdd ar hyn o bryd.

Roedd Adroddiad Polisi Ariannol BoE mis Tachwedd yn rhagweld y byddai CMC yn ehangu 0.2% yn gymedrol yn Ch4 calendr 2025. Roedd amcangyfrifon o chwyddiant yn yr adroddiad wedi dyddio yn gyflym pan syrthiodd CPI yn gyflymach na'r disgwyl ym mis Tachwedd. Adleisiwyd rhagfynegiadau o economi sy'n tyfu'n gymedrol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei Rhagolwg Economaidd a Chyllidol a gyhoeddwyd gyda Datganiad yr Hydref a adolygodd ei amcangyfrif o CMC blynyddol i tua 1.5% rhwng 2025 a 2030.

Roedd gan Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, farn ganolog y byddai Cyfradd Banc yn cael ei dorri ymhellach yn 2025/26 gyda'r mwyafrif o wneuthurwyr polisi BoE yn parhau i fod yn fwy pryderus am dwf CMC gwan na chwyddiant uwch. Yn unol â rhagolwg canolog Arlingclose, gostyngwyd Cyfradd Banc i 3.75% ym mis Rhagfyr. Disgwylir toriadau pellach yn 2026, gyda'r rhagolwg canolog yw y bydd Cyfradd Banc yn cael ei llacio i oddeutu 3.25%.

Parhaodd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau i dorri cyfraddau, gan leihau ystod targed Cyfradd Cronfeydd Fed gan 0.25% yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr i 3.50% - 3.75%. Nododd cofnodion y cyfarfod fod y rhan fwyaf o lunwyr polisi yn barnu y byddai toriadau cyfradd pellach yn debygol yn 2026 os yw chwyddiant yn parhau i leddfu, fodd bynnag, roeddent yn dal i fod wedi'u rhannu yn eu hasesiad o'r risgiau rhwng chwyddiant a diweithdra.

Cynhaliodd Banc Canolog Ewrop (ECB) ei gyfraddau llog allweddol ym mis Rhagfyr am bedwerydd cyfarfod yn olynol, gan gynnal y gyfradd adneuo ar 2.0% a'r brif gyfradd ail-ariannu ar 2.15%. Dywedodd yr ECB y bydd penderfyniadau polisi yn y dyfodol yn parhau i fod yn ddibynnol ar ddata, bod chwyddiant yn agos at ei tharged o 2% a bod economi ardal yr ewro yn parhau i ehangu er gwaethaf amgylchedd byd-eang heriol, gan gynnwys risgiau geopolitical uwch a thensiynau masnach.

## 2.2 Marchnadoedd Ariannol

Ar ôl dirywio'n sydyn yn gynnar yn y cyfnod, mae'r teimlad mewn marchnadoedd ariannol wedi bod yn fywiog yn bennaf, ond roedd asedau gyda risg yn parhau i fod yn gyfnewidiol. Gostyngodd enillion bondiau i ddechrau yn gynnar yn y cyfnod, ond achosodd ansicrwydd cynyddol ynghylch rhagolygon economaidd a chyllidol y DU gynnydd i gynyddu cynnyrch canolog a hirach. Arhosodd y cynnyrch yn uchel tan y trydydd chwarter pan ystyriwyd bod effaith negyddol bosibl Cyllideb y DU yn llai na'r disgwyl a lleddfu cynnyrch yn gymedrol.

Enillodd marchnadoedd ecwiti y gostyngiadau blaenorol a welwyd yn y gwerthiant ym mis Ebrill ac maent wedi parhau i godi, hyd yn oed yn wyneb ansicrwydd parhaus ynghylch bodolaeth 'swigen' a chrynodeiad sy'n gysylltiedig ag AI ym marchnadoedd stoc yr Unol Daleithiau a byd-eang.

Dros y cyfnod, dechreuodd cynnyrch gilt meincnod 10 mlynedd y DU ar 4.65% a gorffennodd ar 4.48%. Fodd bynnag, gwelodd y naw mis hyn anwadalrwydd sylweddol gyda'r cynnyrch 10 mlynedd yn taro isel o 4.39% ac uchel o 4.82%. Roedd yn ddarlun tebyg ar gyfer y gilt 20 mlynedd a dechreuodd ar 5.18% ac a ddaeth i ben ar 5.11% gydag isel ac uchel o 5.05% a 5.55% yn y drefn honno. Roedd y Gyfradd Sterling Dros Nos (SONIA) ar gyfartaledd o 4.10% dros y naw mis hyd at 31 Rhagfyr.

## 2.3 Adolygiad Credyd

Cynhaliodd Arlingclose ei uchafswm terfyn hyd heb ei warantu a argymhellir ar y rhan fwyaf o'r banciau ar ei restr wrthbartiau ar 6 mis. Mae'r banciau eraill yn aros ar 100 diwrnod.

Yn gynharach yn y cyfnod, uwchraddiodd Fitch Grŵp NatWest ac endidau cysylltiedig i AA- o A + a gosododd sgôr A- hirdymor Clydesdale Bank ar Rating Watch Positive. Yn ddiweddarach, uwchraddiodd Fitch Clydesdale Bank a HSBC, ond israddiodd Lancashire CC a Close Brothers.

Ym mis Mai, israddiodd Moody's sgôr hirdymor sofran yr Unol Daleithiau i Aa1 a chadarnhaodd sgôr OP Corporate yn Aa3. Yn ddiweddarach, uwchraddiodd Moody's Transport for London, Allied Irish Banks, Bank of Ireland, Toronto-Dominion Bank, DZ Bank, Nordea a HSBC ac israddiodd Close Brothers.

Uwchraddiodd S&P Clydesdale Bank, Allied Irish Banks a Bank of Ireland, a neilltuodd sgôr BBB+ i Gyngor Warrington.

Ar ôl cynnydd ym mis Ebrill yn dilyn cyhoeddiadau tariff masnach yr Unol Daleithiau, roedd prisiau cyfnewid diffyg credyd y DU (CDS) yn tueddu i ostwng cyn codi yn gymedrol ym mis Hydref a Thachwedd. Fe wnaethant ostwng eto ym mis Rhagfyr a gorffen y flwyddyn yn unol â'r lefelau a welwyd yn hanner cyntaf y flwyddyn a'r rhan fwyaf o 2024.

Mae prisiau CDS banciau Ewrop yn gyffredinol wedi bod yn fwy gwastad ac yn is o'i gymharu â'r DU, fel y mae benthycwyr Singapore ac Awstralia tra bod rhai prisiau CDS banciau Canada wedi parhau i fod yn uchel ers dechrau'r cyfnod yn rhannol oherwydd tensiynau masnach parhaus gyda'r Unol Daleithiau.

Ar ddiwedd y cyfnod arhosodd prisiau CDS ar gyfer pob banc ar restr gwrthbarti Arlingclose o fewn terfynau a ystyriwyd yn foddhaol ar gyfer cynnal cyngor credyd ar y cyfnod presennol.

Disgwylir i anwadalrwydd y farchnad ariannol barhau, a bydd lefelau CDS yn cael eu monitro ar gyfer arwyddion o straen credyd parhaus. Fel erioed, mae'r sefydliadau a'r cyfnodau ar restr gwrthbartiau'r Awdurdod a argymhellir gan Arlingclose yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.

### 3. Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

Ar 31 Rhagfyr 2025, roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £53.1m sy'n deillio o'i incwm a gwariant refeniw a cyfalaf.

Parhaodd y Cyngor ei strategaeth o gadw benthyca a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau'n fenthyca mewnol, er mwyn lleihau'r risg a chadw costau llog yn isel.

	<b>31.3.25 Balans £m</b>	<b>Symudiad £m</b>	<b>31.12.25 Balans £m</b>
Benthyca tymor hir	90.1	(16.3)	73.8
Benthyca tymor byr	4.0	(1.2)	2.8
PFI	1.0	0	1.0
<b>Cyfanswm benthyca</b>	<b>95.1</b>	<b>(17.5)</b>	<b>77.6</b>
Buddsoddiadau tymor byr	(86.9)	(1.6)	(88.5)
Arian a chyfwerthoedd arian	(66.0)	23.8	(42.2)
<b>Cyfanswm buddsoddiadau</b>	<b>(152.9)</b>	<b>22.2</b>	<b>(130.7)</b>
<b>Benthyciadau net/ (buddsoddiadau)</b>	<b>(57.8)</b>	<b>4.7</b>	<b>(53.1)</b>

**Strategaeth a Gweithgaredd Benthyca:** Ni wnaed unrhyw fenthyciadau tymor hir yn 2025, gyda benthyciadau presennol yn aeddfedu heb eu hadnewyddu a penderfynwyd ad-dalu benthyciad hanesyddol o £16.2m gan y banc oherwydd termau ffafriol. Galluogodd y strategaeth hon i'r Cyngor leihau costau benthyca net (er gwaethaf yr incwm buddsoddi a gollwyd) a lleihau risg trysorlys cyffredinol y Cyngor.

**Gweithgaredd Buddsoddi'r Trysorlys:** Mae'r Cyngor yn dal cronfeydd sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd ymlaen llaw i wariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a gedwir ar gyfer y Gronfa Bensiwn. Yn ystod y flwyddyn, roedd balansau buddsoddi'r Cyngor yn amrywio rhwng £74.3m a £159.8m oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant.

## Sefyllfa Buddsoddiadau

	<b>31.3.25 Balans £m</b>	<b>Symudiad £m</b>	<b>31.12.25 Balans £m</b>
Banciau a chymdeithasau adeiladu (heb eu diogelu)	6.0	(4.8)	1.2
Awdurdodau Lleol	25.0	11.5	36.5
Cronfeydd Marchnad Arian	65.0	(24.0)	41.0
Swyddfa Rheoli Dyledion	45.0	(6.0)	39.0
Cronfeydd wedi'i pwlio	11.9	1.1	13.0
<b>Cyfanswm buddsoddiadau</b>	<b>152.9</b>	<b>(22.2)</b>	<b>130.7</b>

### 4. Dangosyddion Darbodus Rheolaeth Trysorlys

Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli'r Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Cyngor yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol ar gyfer rheolaeth trysorlys.

#### i. Meincnod Ymrwymadau


Mae'r dangosydd hwn yn cymharu gwir fenthyciadau presennol y Cyngor yn erbyn meincnod ymrwymadau sydd wedi'i gyfrifo i ddangos y lefel risg isaf o fenthycia. Mae'r meincnod ymrwymadau yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'n cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthycia allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf o £21.5m sydd ei angen i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

	<b>31.3.25 Gwir</b>	<b>31.3.26 Amcan</b>	<b>31.3.27 Amcan</b>	<b>31.3.28 Amcan</b>
CFR Benthyciadau	179.9	187.4	189.8	184.7
Llai: Adnoddau'r Fantolen	(232.8)	(149.8)	(126.9)	(126.9)
<b>Gofynion benthyciadau net</b>	<b>(52.9)</b>	<b>37.6</b>	<b>62.9</b>	<b>57.8</b>
Ychwaneg: Lwfans hylifedd	21.5	21.5	21.5	21.5
<b>Meincnod ymrwymadau</b>	<b>(31.4)</b>	<b>59.1</b>	<b>84.4</b>	<b>79.3</b>
<b>Benthycia presennol</b>	<b>94.2</b>	<b>73.9</b>	<b>69.4</b>	<b>68.0</b>

Mae'r tabl yn dangos bod y Cyngor yn disgwyl parhau i fenthycia uwchlaw ei feincnod ymrwymadau hyd at 2026. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn, ac mae all-lif arian parod hyd yma wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd y benthyciadau.

Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn tybio nad oes gwariant cyfalaf newydd wedi'i ariannu gan fenthycia, isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar ddull llinell syth 50

mlynedd. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedwydd benthycia presennol y Cyngor.



Mae'r siart yn dangos nad oes angen benthycia yn y tymor hir yn seiliedig ar amcanion cyfredol, ond efallai yn y tymor byr yn y dyfodol agos.

## ii. Strwythur Aeddfedwydd Benthycia

Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail-ariannu. Roedd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

	31.12.25 Gwir	Terfyn Uchaf	Terfyn Isaf	Cydymffurfio
O dan 12 mis	3.63%	25%	0%	✓
12 mis ac o fewn 24 mis	7.27%	25%	0%	✓
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	2.38%	50%	0%	✓
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	30.81%	75%	0%	✓
10 mlynedd a throsodd	55.90%	100%	0%	✓

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedwydd benthycia yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

### iii. Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Hir-dymor

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o achosi colledion trwy geisio ad-daliad cynnar o'i fuddsoddiadau. Y terfynau darbodus ar y terfynau rheolaeth trysorlys hirdymor yw:

	2024/25	2025/26	2026/27	Dim dyddiad penodol
Y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£13m	£0	£0	£0
Terfyn ar brifswm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£40m	£20m	£20m	£20m
<b>Cydymffurfio</b>	✓	✓	✓	✓

#### Dangosyddion ychwanegol:

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli ei amlygiad i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwysoli gan amser yn ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo drwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli gan hyd pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

	31.12.25 Gwir	2025/26 Targed	Cydymffurfio
Sgôr credyd cyfartalog portffolio	4.3	Sgôr o 6 neu is	✓

**Hylifedd:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro faint o arian sydd ar gael i dalu taliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

	31.12.25 Gwir	2025/26 Targed	Cydymffurfio
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£117.7m	£10m	✓

**Datguddiad Cyfraddau Llog:** Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog oedd:

	31.12.25 Gwir	2025/26 Terfyn	Cydymffurfio
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog	£1,105,920	£1,324,700	✓
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gwmp o 1% mewn cyfraddau llog	£1,105,920	£1,324,700	✓

## 5. Argymhelliad

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.